

Gweithgaredd 8

Cwrlid hawliau lluniau plant

Nod: Annog plant i ddysgu a deall yr hawliau sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) drwy wneud cwrlid lluniau hawliau plant sy'n dangos erthyglau allweddol y Confensiwn. **Amser:** 1-2 awr. **Oedran:** 7+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** Fersiwn gryno i blant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (ar y CD, chwyddwch a'i arddangos neu eu cyflwyno ar ffurf PowerPoint); datganiadau UNCRC (ar y CD, torrwrch hwy i fyny a'u rhoi mewn bocs neu het); templed cwrlid lluniau hawliau plant (ar y CD, un i bob grŵp). Mae angen ar bob pâr o blant ddarn o ffabrig neu bapur yn unol â'r templed (ar y CD); pedrongl fawr o ffabrig neu bapur fel cefn i'r cwrlid.

Beth i'w wneud

Cyflwynwch Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (UNCRC) yn sydyn. Dywedwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i ddarganfod yr hawliau hyn a'u rhoi mewn arddangosfa fawr.

Hawliau'r plentyn

Esboniwch, yn dilyn Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol, crëwyd nifer o ddeddfau rhyngwladol i ddiogelu hawliau grwpiau penodol o bobl. Mae un o'r deddfau hyn yn diogelu hawliau dynol plant.

Yr enw a roddwyd arno yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ac fe'u lluniwyd gan arweinwyr y byd mwy na 20 mlynedd yn ôl. Mae'n mynegi'n hollol glir yr hawliau sydd gan y ddau biliwn o blant a phobl ifanc dan 18 oed yn ein byd, a'u hangen am ofal a chymorth arbennig. Mae'n nodi'r hyn ddylai llywodraethau ei wneud i gynorthwyo cyflawni'r hawliau hyn. Daeth yn rhan o gyfraith ryngwladol ym 1989. Mae bron pob gwlad yn y byd wedi addo gwireddu hawliau'r UNCRC ar gyfer plant.

Mae'r Confensiwn yn darparu dros 40 o hawliau ar gyfer pobl ifanc, ac yn dweud bod gan bob plentyn yr hawl i fyw ac i dyfu i fyny; i'w ddiogelu rhag niwed, perygl a thriniaeth wael; i fwynhau bywyd teuluol, gofal iechyd ac addysg; i'w trin yn deg; i gael gwrandawriad i'w syniadau eu hunain. Dosbarthwch fersiwn gryno o'r Confensiwn gyda'r dosbarth (ar y CD).

Meimio

Rhannwch y dosbarth mewn i barau. Rhowch y 16 datganiad UNCRC mewn het neu flwch. Esboniwch mai ond detholiad o'r hawliau sydd gan blentyn yw'r rhain. Dylai pob pâr ddewis un datganiad ar hap a heb edrych arno (fel twba lwcus) gan basio'r bocs o amgylch

y dosbarth. Dylai'r pâr ddarllen a thrafod ystyr eu datganiad (gan geisio cymorth os oes ei angen). A allant feddwl am un neu ddau air a fyddai'n crynhoi ystyr eu datganiad?

Nawr, dylai pob pâr weithio ar feim syml i gynrychioli eu gair a'u datganiad.

SYNIADAU ERAILL AR GYFER ARDDANGOSIADAU

Yn lle cwrlid, gallai plant ddylunio eu datganiadau UNCRC drwy:

- beintio ar deils;
- cerflunio ffigurau bach allan o glai neu blaster ar gyfer pob hawl;
- creu clytwaith allan o ddefnyddiau neu sgwariau wedi eu brodio;
- peintio ar sidan gyda gutta neu amlinellydd ac inc defnydd;
- gwneud printiadau torluniau leino.



© Paula Cox

Gweithgaredd 8

Cwrlid hawliau lluniau plant **parhad**

**Gweler
ADNODDAU
CD ar gyfer
cyfarwyddiadau'r
cwrlid**

Creu cwrlid

Y cam nesaf yw gofyn iddynt wneud braslun ar ddarn o bapur sgrap er mwyn dangos yr hyn mae eu datganiad yn ei nodi (mae enghreifftiau isod). Wedi hyn maent yn copio eu braslun fel ei fod yn llenwi'r holl ddarn o bapur neu ddefnydd, ac yn ei liwio'n hardd.

Wedyn, dylent ysgrifennu geiriau eu datganiad ar y bedrongl ar frig y dudalen.

Pan maent yn barod, dylai'r plant i gyd sefyll mewn cylch. Yn eu tro, gofynnwch i'r parau berfformio eu meim. Heriwch weddill y dosbarth i ddyfalu beth sy'n cael ei bortreadu. Wedyn gofynnwch i'r pâr sy'n perfformio i ddarllen eu datganiad allan yn uchel a dangos eu llun.

Dylai'r athro ysgrifennu 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn' (UNCRC) fel teitl mawr i'w

ludo ar draws ochr uchaf y cwrlid – gofynnwch i'r plant eich helpu. plant eich helpu. (Gweler tudalennau templed y cwrlid lluniau hawliau plant am gyfarwyddyd).

Dylid gludo neu wrnio darluniau'r plant, eu datganiadau UNCRC a phennawd UNCRC ar gefnlen fawr o bapur neu ddefnydd.

Gall hwn gael ei gyflwyno mewn gwasanaeth ysgol am UNCRC, gyda dangosiad PowerPoint wrth i'r artistiaid berfformio eu gwaith meim. Gellir arddangos y cwrlid hawliau plant yn gyhoeddus yn yr ysgol, efallai ar 20 Tachwedd (Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant y CU).

Mae gan bob plentyn yr hawl i gwrdd â'i ffrindiau ac ymuno â grwpiau.



Mae gan bob plentyn yr hawl i siarad ei iaith ei hun ac arfer ei grefydd ei hun.



Ffynhonnell: Addaswyd o Our World Our Rights, Gweithgaredd 6.